**Atodiad B**

**Cynllun Cyfathrebu Gwywiad Coed Ynn Cyngor Sir Ceredigion**

## 1. Crynodeb Gweithredol

Y bygythiad uniongyrchiol sy'n deillio o Wywiad Coed Ynn yw'r risg cynyddol i ddiogelwch y cyhoedd yn sgil coed yn marw ac yn cwympo neu'n colli canghennau.

## 2. Y Sefyllfa Farchnata Gyfredol

Rhoddodd y cyfryngau cenedlaethol sylw helaeth i wywiad coed ynn pan ganfuwyd y clefyd gyntaf yn 2012 ond mae'r sylw wedi pylu ar waetha'i effaith fawr a'i effeithiau posibl. Y camau cyntaf wrth wynebu'r broblem yw bod yn ymwybodol ohoni a dod i delerau â hi.

Pa mor ymwybodol yw trigolion/tirfeddianwyr o'r broblem ar hyn o bryd? Mae'n amlwg bod angen mwy o ymwybyddiaeth cyhoeddus.

## 3. Dadansoddiad o Fygythiadau a chyfleoedd

- Iechyd a Diogelwch, niwed i'r economi ac i enw da, effeithiau amgylcheddol.
- Bygythiad: Trafod gyda thirfeddianwyr anfoddog.
- Cyfathrebu'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn er mwyn hysbysu rhanddeiliaid allweddol ynghylch y clefyd a'i risgiau i'w gwasanaethau.
- Gellid defnyddio Gwasanaethau Cwsmeriaid Clic i rannu gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth.
- Cydweithio gan wasanaethau ar draws y Cyngor - Diogelu'r Cyhoedd, Priffyrdd. Cyfathrebu, Cyfreithiol, Ysgolion, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Yr Arfordir a Chefn Gwlad.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y Gronfa Adfywio Leol – Heddlu Dyfed Powys, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol.

## 4. Amcanion a Materion

- Cyfleu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwywiad coed ynn a chyfeirio trigolion at ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater. "Nid yw'n fater o fwrw ymlaen fel arfer"
- Creu Fframwaith Gwaith Coed o gontractwyr cymwys
- Ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid mewn gwahanol ffyrdd i sicrhau bod pob sianel gyfathrebu wedi'i defnyddio

## 5. Strategaeth Farchnata - cynllun cyfathrebu 10 mlynedd

**Tymor Byr/Canolig** - Cynnig cyngor a chyfeirio.  Codi ymwybyddiaeth. Cynnwys gwybodaeth am yr hyn y dylid bod yn ymwybodol ohono a phryd y gellir gwneud gwaith h.y. osgoi'r tymor nythu, ymwybyddiaeth o ystlumod a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn gwlad 1980. Gellir cael gwybodaeth i'r cyhoedd ar: Clefyd Gwywiad Coed Ynn - Cyngor Sir Ceredigion

**Hirdymor** - Adnewyddu stoc i warchod yr ecosystem a chynorthwyo i ddal carbon Cyfeirio, Atgoffa.

Mae’n bosibl y bydd gofyn cael negeseuon cryfach ynghylch gorfodaeth/dirwyon wrth i amser fynd yn ei flaen.

## 6. Rhaglen Weithredu

- Ymgyrch gyfathrebu yn cynnwys datganiadau i’r wasg, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, erthygl ‘Diwrnod ym Mywyd …’ y Swyddog Gwywiad Coed Ynn pan fydd yn ei swydd, cyfweliadau gyda’r cyfryngau/radio lleol, clipiau cyfryngau, hysbysebion (y telir amdanynt), gweithgareddau ymgysylltu, newyddlenni i drigolion, taflenni gwybodaeth, cyfathrebu mewnol.
- The Tree Council - Gwywiad Coed Ynn - Canllaw i Berchenogion Coed. Mae The Tree Council yn ymchwilio i gynhyrchu fersiwn Gymraeg ar gais Ceredigion.
- Datblygu ac ychwanegu adran ‘Cwestiynau Cyffredin’ i’r dudalen wybodaeth ar Wywiad Coed Ynn ar wefan Ceredigion: Clefyd Gwywiad Coed Ynn - Cyngor Sir Ceredigion